# Heddwch

Rhif 1 Haf 1991 20c



# COW BOIS YN YR AWYR

Ni ddaeth diwedd y Rhyfel Oer â hedfan isel i ben fel y gobeithiai llawer o bobl. Yr haf yma, meddiannodd awyrennau rhyfel yr awyr dros ran anferth o Gymru yn un o'r chwareuon rhyfel mwyaf erioed.

Mae'r Awyrlu yn ceisio profi bod defnydd o hyd i'w hawyrennau ymosod hedfan-isel, sydd yn sgrechian dros y caeau cyn lleied â chan troedfedd uwchlaw'r ddaear.

Roeddent yn arfer ymarfer dros Cymru ar gyfer ymosodiadau ar ddwyrain Ewrop. Ond ni allant ddefnyddio'r esgus hwnnw er i'r Rhyfel Oer ddod i ben.

Y stori nawr yw bod hedfan isel wedi bod yn angenrheidiol yn y Gwlff. Ond celwydd yw hynny. Collodd yr Awyrlu gymaint o awyrennau mewn ymosodiadau lefel-isel nes gorfod newid eu tactegau a bomio o lefel uwch.

Nid yw CND Cymru erioed wedi derbyn dadleuon yr Awyrlu dros hedfan isel. Yr oeddem yn erbyn y cynlluniau am ymosodiadau niwclear ar ddwyrain Ewrop ac yn erbyn bomio Iraq, boed yr awyrennau'n hedfan yn uchel neu'n isel.

Yn awr, ni fedr hyd yn oed yr Awyrlu ddadlau achos dros hedfan isel. Mae'n beryglus, mae'n wastraffus ac mae'n niweidio'r amgylchedd. Pam felly mae awyrennau rhyfel yn dal i hedfan yn isel dros Gymru? Am hwyl?

Gweler y tu fewn am newyddion ynghylch ymgyrch newydd CND Cymru i atal Cowbois yr Awyr.

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a dros fyd lle bydd yr adnoddau anferth a wastreffir heddiw i ddiwallu gwir anghenion y gymdeithas ddynol**

Yng Ngŵyl *Gofyn am y Ddaear* mis Medi 1990 yn Leeds, lawnsiwyd maniffesto 'gwyrdd' gan CND a nifer o fudiadau heddwch, datblygu, a gwyrddion eraill. Fe'i harwyddwyd yn yr ŵyl gan dros 800 o bobl, ond buan y gwnaeth Rhyfel y Gwlff bwyslais y maniffesto ar y Rhyfel Oer yn amherthnasol.

Bellach, cafodd y maniffesto ei ail-ysgrifennu i gwmpasu'r cyfnod wedi'r Gwlff. Fe'i hail-lawnsiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar Ddydd Amgylchedd y Byd, Mehefin 5ed.

Ym mis Mehefin 1992, cynullir cynhadledd fawr ar yr Amgylchedd a Datblygiad gan y CU. Ar hyn o bryd, ni fwriedir i'r gynhadledd ymdrin â diarfogi. Bydd ymgyrchwyr dros heddwch o bedwar ban y byd yn pwyso am gynnwys diarfogi fel elfen hanfodol yn y broses o achub a diogelu'r ddaear a gwella bywydau ei thrigolion. Defnyddir Maniffesto'r Ddaear i ddadlau'r achos ym Mhrydain.

Gwelodd dechrau'r 1990au gyfres o argyfyngau ledled y byd.

Meddiannodd rhyfel y Gwlff sylw cyfryngau, gwleidyddion a chynllunwyr milwrol y byd am saith mis. Gadawodd ar ei ôl waddol o angau, afiechyd, newyn, ofn, a dinistr i'r amgylchedd.

Mae miliynau o bobl ledled y byd sy'n datblygu yn wynebu newyn ac afiechyd, heb gartrefi. Mae rhai wedi dioddef trychinebau naturiol – sychdwr neu gorwynt. Mae eraill yn dioddef oherwydd rhyfel neu ormes. Cymorth truenus o annigonol a dderbyniodd y rhan fwyaf ohonynt gan genhedloedd cefnog y ddaear.

Er mwyn wynebu gwir broblemau ein daear a'r hyn sy'n bygwth ei thrigolion, rhaid i ni ad-drefnu ein blaenoriaethau a'n gwariant.

Rhaid i ni ddatblygu dealltwriaeth newydd o ddiogelwch nad yw'n seiliedig ar ddefnyddio grym, bygythiadau neu arfau dinistr torfol, ond yn hytrach ar gyd-weithrediad, datrys gwrthdaro mewn modd heddychlon a hyrwyddo datblygu cynaladwy.

Yr ydym ni, a arwyddodd y maniffesto hwn, yn galw ar y Llywodraeth Brydeinig i leihau ei gwariant milwrol o 50 y cant o leiaf mewn termau real erbyn y flwyddyn 2000; i gynyddu ei gwariant ar iechyd, tai, addysg, lles a chymorth tramor yn sylweddol; ac i gymryd y camrau a ganlyn ar fyrder:

**DIARFOGI**

*Arfau Dinistr Torfol:*

- Cefnogi gwaharddiad cynhwys fawr ar brofi arfau niwclear.



*Lawnsio'r Maniffesto:* Bibi Small, Women for World Disarmament; Bruce Kent, UNA Executive; Niki Kortvelyessy, Green Party Foreign Affairs Spokesman; Tony Smythe, Director, Medical Campaign Against Nuclear Weapons At the launch of the 'Manifesto for the Earth'.

# Maniffesto'r Ddaear

**Cyfraniad tuag at ymwybyddiaeth gyhoeddus, fel paratoad ar gyfer Cyfarfod Brig y Cenhedloedd Unedig ar 'Y Ddaear', Brasil, Mehefin 1992.**

- Rhoi'r gorau i bob cynllun i ddatblygu, dylunio, adeiladu, neu leoli arfau niwclear newydd.
- Ymdrechu i sicrhau gwaharddiad byd-eang ar arfau dinistr torfol.

*Lluoedd Confensiynol:*

- Cefnogi cwtogi pellach ar niferoedd lluoedd a gwersylloedd tramor ar dirogaeth Ewrop.
- Atgyfnerthu swyddogaeth y Cenhed-loedd Unedig yn y broses o ddatrys gwrthdaro yn heddychlon ledled y byd.

*Trawsnewid Arfau:*

- Cefnogi a chyllido trawsnewid diwydiannau arfau i gynhyrchu mwy o swyddi a nwyddau o werth cymdeithasol.
- Cau'r Mudiad Gwasanaethau Allforion Amddiffyn (MGAA) a gosod rheolaethau llym ar werthu arfau.

**DATBLYGU**

*Dyled:*

- Pwyso am ddileu dyledion gwledydd tlotaf y byd a haneru dyledion gwledydd eraill sy'n datblygu.

*Cymhorthdal:*

- Sicrhau y defnyddir cymhorthdal gan wledydd Prydain i ddibenion datblygu cynaladwy, a chynyddu'r cymhorthdal i nod y CU o 0.7 y cant o GCG, o leiaf.

*Cymorth Argyfwng:*

- Cefnogi rhoi mwy o flaenoriaeth yn y CU i ddarparu cymorth argyfwng yn ddiymdroi, mewn modd cyd-gysylltiedig.

**Y WLADWRIAETH**

*Cynhesu Byd-eang:*

- Cwtogi'n hallt ar allyriant carbon diocsid.
- Buddsoddi mwy mewn cludiant mwy derbyniol i'r amgylchedd.
- Buddsoddi'n hael mewn diogelu ac adnewyddu'r coedwigoedd glaw.

*Disbyddu Oson:*

- Cynorthwyo'r gwledydd sy'n datblygu i gynhyrchu technolegau amgen i gymryd lle CFCau a nwyon eraill sy'n dinistrio oson.

*Ynni:*

- Cyllido ffynonellau ynni adnewyddadwy, diogel yn hytrach nag ynni niwclear.
- Hyrwyddo cadwraeth ynni ac ailgylchu.
- Rhoi'r gorau i brosesu gwastraff niwclear, boed o wledydd Prydain neu wedi ei fewnforio.

**Ceir copiau o'r maniffesto i unigolion a grwpiau ei gymeradwyo gan Linda Walker, One World Centre, 13 Paton Street, Manceinion M1 2BA.**

## 'DIM NUKES' – LLAFUR

**Adolygiad:** *"Nuclear Free – the New Zealand Way"*, **gan David Lange (Penguin, £5.99)**

'Fel arweinydd y Blaid Lafur, cymerais yn ganiataol y byddem yn gwahardd arfau niwclear ... cyn gynted ag y cai Llafur ei hethol.' Neil Kinnock? Na: David Lange, cyn-Brif Weinidog Seland Newydd yn ei lyfr "Nuclear Free – the New Zealand Way", hanes treiddgar o gyrch Seland Newydd tuag at bolisi diniwclear.

Dengys pa mor anodd oedd hi i gamu y tu allan i rengoedd y byd gorllewinol, yn enwedig ar adeg pan oedd Mrs Thatcher a'r Arlywydd Reagan wrthi'n porthi'r Rhyfel Oer. Mae gan Lange y gallu i ddisgrifio'r problemau sy'n deillio o geisio glynu wrth egwyddorion ar ôl ennill grym, a rhestra'r pwysau cyson ar ei lywodraeth gan UDA ac Awstralia.

Mae'n siarad yn blaen am rai o'r cymeriadau yn yr hanes, megis Schultz a Hawke, gan eu disgrifio â ffraethineb, heb flewyn ar ei dafod. Mae hefyd yn taflu dŵr oer ar ddefnyddioldeb cynulliadau rhyngwladol rhwysgfawr.

Mae'r gyfrol hon yn ein hatgoffa mae unigolion ffaeledig sy'n penderfynu ar bethau, a bod angen dewrder bob amser i newid y status quo.

**Judith Anderson**

## CROESO

Dyma'r rhifyn cyntaf o gylchgrawn newydd CND Cymru, *Heddwch*. Gobeithio eich bod yn ei hoffi. Dewch i gysylltiad â ni os ydych am gopiau ychwanegol.

Gobeithio y bydd y cylchgrawn yn apelio at aelodau CND Cymru a chynulleidfa ehangach o bobl sydd yn cefnogi ein nod o fyd glân, cyfiawn, a heddychlon.

Â'r wobr o docyn anrheg £10 o Siop Heddwch Caerdydd i Alison Jackson o Lanisien, a awgrymodd y teitl *Heddwch*.

Diolch i *Radio-Active Times* am gyfraniad o £100 tuag at gostau lawnsio *Heddwch*.

Croesawn gyfraniadau i'r cylchgrawn gan unrhywun â rhywbeth i'w ddweud. Dylid eu danfon, wedi eu teipio neu ar ddisg, at James Stewart, 31 Romilly Crescent, Caerdydd CF1 9NP. Y dyddiad olaf ar gyfer y rhifyn nesaf yw 20 Medi.



Chris Gregory

Greenham 1982

# Y FFORDD I GREENHAM 1981

**Yn y 1970au diweddar, bygythiwyd claddu gwastraff niwclear yng Nghymru. Ar ôl 18 mis o ymgyrch werinol, gan gynnwys gweithredu uniongyrchol, cyhoeddodd Michael Heseltine yn y senedd nad oedd Cymru'n lle addas i gladdu'r gwastraff. Daeth pobl yng Nghymru yn gyfarwydd ag ymgyrchu ... ac ennill.**

Esgorwyd ar y daith i Gomin Greenham y tu allan i wersyll milwrol yr UD ym Mreudeth, sir Benfro, mewn gorymdaith a rali CND ym Mehefin 1981. Roedd deuddeg dyn yn annerch: gweinidogion, gwleidyddion, a gwyddonwyr. Gwnaeth Ann Pettit, mam i ddau blentyn bach a thyddynwraig, araith fyr-fyfyr yn mynegi teimladau llawer o'r menywod yn y rali. Siaradodd am fenywod yn magu'r genhedlaeth nesaf ddim ond iddynt gael eu lladd mewn rhyfeloedd.

Erbyn mis Awst, roedd Ann a rhai ffrindiau wedi trefnu'r daith gerdded 125 milltir o hyd o Gaerdydd i USAF Comin Greenham i wrthdystio yn erbyn lleoli taflegrau Cruise Americanaidd yno, gan fynnu dadl ar y teledu gyda'r Llywodraeth.

Ymadawodd tri dwsin o fenywod a chwe dyn â Chaerdydd ar Awst 27ain 1981. Edrychwyd ar ôl y cerddwyr ar y ffordd gan grwpiau lleol, cynghorwyr a rhai aelodau o bleidiau gwleidyddol.

Wedi i ni gyrraedd Comin Greenham, cadwynodd pedair menyw o bedair cenhedlaeth wahanol eu hunain wrth y glwyd, fel *suffragettes* dechrau'r ganrif. Fel y rheini o'n blaen, fe'n hanwybyddwyd.

Gwylltiodd menywod a fu ar y daith, a phenderfynu aros, gan gysgu y tu allan i'r brif glwyd o dan y sêr. Daeth pobl leol â bwyd, coed tân a phebyll. Wedi ychydig fisoedd, penderfynwyd mai gwersyll i fenywod yn unig fyddai hwn.

Ym mis Rhagfyr 1982, amgylchynodd 30,000 o fenywod y gwersyll, gan addurno'r ffens â blodau, esgidiau babanod, a lluniau o berthnasau a laddwyd mewn rhyfeloedd. Arhosodd miloedd o fenywod yno am flocâd a gaeodd yr holl glwydi y diwrnod canlynol; dyma'r digwyddiad cyntaf a gafodd sylw'r cyfryngau.

Wedi cyfres o ymweliadau gan feiliaid, symudodd y menywod o dir yn perthyn i'r cyngor i dir y Weinyddiaeth Amddiffyn, tir yr Adran Drafnidiaeth, ac yn ôl eto, heb symud mwy nag ychydig lathenni bob tro, yn fynych iawn.

Bu teithiau cerdded eraill wedi hynny; cerddodd 130 i Freudeth ym 1982, ac ym 1982 hefyd cafwyd teithiau'r Seren, sef 17 o orymdeithiau i Greenham o bob rhan o Brydain.

Ymwelodd menywod o bob rhan o'r byd â Greenham. Cyn hir roedd o leiaf 25 o wersylloedd ym Mhrydain, gydag eraill yn Awstralia ac America.

Nos Galan 1982, aeth menywod i mewn i'r gwersyll milwrol a dawnsio ar y silos lle cedwir y taflegrau. Ar ôl hynny, torrai menywod i mewn yn rheolaidd, a nos Galangaeaf 1983 torrwyd milltiroedd o'r ffens i lawr.

Dechreuodd menywod Greenham gefnogi achosion eraill, gan roi eu cefnogaeth i frwydr y glowyr, a chodi arian ar gyfer y newyn yn Ethiopia. Enillodd llawer hunan-werth a hyder i weithredu a siarad yn gyhoeddus, aeth eraill ati i ysgrifennu llyfrau a dramâu, ymchwilio i hanes menywod a threfnu arddangosfeydd.

Roedd CND braidd yn ddrwgdybus o fenywod Greenham i ddechrau, ond yn gefnogol, er i wersylloedd Greenham fynnu cadw eu hunaniaeth eu hunain. Daeth Greenham â ffeministiaeth, teimladrwydd a blas amgylcheddol i CND, ac ailfywiogi'r mudiad.

Ar Fawrth 5ed 1991 aeth y taflegryn niwclear olaf o Gomin Greenham. Wedi deng mlynedd o wersylloedd menywod yn Greenham, cofeb deilwng fyddai cerflun o fenyw yn gwthio ei babi mewn coets ar y fan lle cychwynnodd y daith o Gaerdydd ym 1981.

**Thalia Campbell**

# GWEITHREDU SYNIADAU

**Yn y misoedd er diwedd Rhyfel y Gwlff bu llawer o drafod ac ail-feddwl yn CND Cymru. Mae'r trafod a'r dadlau wedi canolbwyntio ar ein cyfeiriad yn y dyfodol ac, er nad ydynt wedi gorffen eto, maent wedi rhoi cyfeiriad i ni am y misoedd nesaf.**

Mae dwy elfen newydd yn ein hymgyrch: y naill yw ceisio creu 'agenda ryngwladol' newydd yng Nghymru. Bydd hynny'n hoelio sylw'r mudiad heddwch a'i weithgareddau ar y fasnach arfau a'r angen i ymrestru adnoddau byd-eang yn achos heddwch, cyfiawnder a datblygu. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â mudiadau megis yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau (YEFA).

Ein nod yw dangos oni atalir y ras arfau, a gwahardd gwerthu arfau ledled y byd, yna nid oes gennym obaith o allu datrys problemau newyn a thlodi.

Drwy gydol y misoedd nesaf, mae angen i ni sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau cymorth, cymdeithasau'r Cenhedloedd Unedig a chyrff eraill er mwyn gallu gweithredu ar y cyd yn ein broydd.

Rhaid i ni ddangos y cydberthynas rhwng dyled y Trydydd Byd a gwerthu arfau. Er enghraifft, gellir priodoli'r ffaith bod 27 miliwn yn wynebu newyn yn Affrica yn rhannol i ryfeloedd cartref sydd yn fflamio yno, wedi eu cynnal gan werthu arfau modern.

Yn y rhifyn hwn o *Heddwch*, ceir deiseb ynglŷn â'r fasnach arfau, y bwriedwn ei chyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ystod yr wythnos 19-26 Hydref (wythnos diarfogi y CU). Gofynnaf i chi ei defnyddio.

Mae ail ran ein strategaeth yn deillio o'r cyntaf, sef yr angen i'r Deyrnas Unedig arwain y ffordd, a chwtogi ar ei gwariant hithau ar arfau.

Er gwaethaf llawer o ddyfalu yn y cyfryngau a datganiadau'r Llywodraeth ar adolygiadau amddiffyn, gwariodd Prydain £21 biliwn y llynedd ar ei lluoedd arfog (heb gyfrif y gwariant ychwanegol ar y Gwlff).

Wrth i ni nesau at Etholiad Cyffredinol ac addewidion gan wleidyddion o bob plaid am fwy o wariant cyhoeddus ar wasanaethau hanfodol, rhaid i ni ofyn paham mae angen i'r DU wario £21 biliwn ar amddiffyn, nawr bod Cytundeb Warsaw wedi diflannu.

Ond nid yw hyn oll am wastraffu adnoddau yn unig, oherwydd ni allwn alw am derfyn ar werthu arfau ac, ar yr un pryd, gynyddu ein lluoedd arfog ein hunain.

Rhaid i ni fynnu yn y lle cyntaf ddileu Trident yn ddiymdroi, gwerth £10 biliwn cwbl dianghenraid o gynnydd niwclear peryglus. Mae'r llong danfor Trident gyntaf i fod i gael ei lawnsio ym mis Rhagfyr.

Yn olaf, o fewn yr hafaliad hwn mae'r ffaith bod gwersylloedd a lleiniau ymarfer milwrol yn dal i fod yng Nghymru. Nid yw tynnu lluoedd allan o'r Almaen yn rheswm dros fediannu Cymru. Cyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf, gobeithiwn gyhoeddi dogfen ar filitareiddio Cymru fel rhan o gyfraniad CND Cymru i'r drafodaeth wleidyddol.

Felly, beth fedrwch chi ei wneud fel aelod unigol o CND?

a) helpu i ddosbarthu *Heddwch*

b) defnyddio'r ddeiseb a'i dychwelyd i CND Cymru

c) ysgrifennu at eich AS/darpar ymgeisydd ynghylch ein gwariant ar arfau.

**Bob Cole**
**Ysgrifennydd Cyffredinol**

---

## Deiseb at ysgrifennydd Gwladol Cymru

Yr ydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn gofyn i chi, ar ein rhan, i alw ar y Llywodraeth Brydeinig i:

a) roi'r gorau i hyrwyddo allforio arfau gan gwmniau Prydeinig ac i'r diben hwnnw, i gau'r Mudiad Gwasanaethau Allforion Amddiffyn sydd â'i swyddfeydd o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn

b) i gefnogi camrau yn y Cenhedloedd Unedig i atal gwerthu a throsglwyddo arfau ledled y byd.

| Enw | Llofnod | Cyfeiriad |
|---|---|---|
| .................................... | .................................... | .................................... |
| .................................... | .................................... | .................................... |
| .................................... | .................................... | .................................... |
| .................................... | .................................... | .................................... |
| .................................... | .................................... | .................................... |
| .................................... | .................................... | .................................... |

Dychweler y ddeiseb hon erbyn Hydref 12 i CND Cymru, Bryn Elltyd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TW.

---

**Youth**

*Wel, am wledd: nid dim ond cylchgrawn newydd sbon i aelodau,ond y golofn gyntaf gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc yn CND Cymru.*

*Mae'r cylchgrawn hwn yn digwydd cyd-daro ag ail-lawnsio Ieuenctid CND fel grwp nerthol yng Nghymru.*

*Yng Nghynhadledd Ieuenctid CND yn Lerpwl fis Ebrill diwethaf, y garfan o 20 o Gymry oedd y fwyaf erioed. Roedd yn cynnwys mwy o weithdai, siaradwyr, dadleuon a chymdeithasu nag erioed o'r blaen. Ac nid dim ond materion heddwch oedd o dan sylw.*

*Felly, be sy'n digwydd? Os ydych yn aelod o'r Mudiad Ieuenctid, dylech fod yn derbyn rhifyn cyntaf y cylchgrawn newydd i aelodau ifanc. Yn ail, ni allai ymgyrch yr haf fod yn haws ymuno â hi.*

*Nod y 'Ddeiseb Heddwch' (syniad a ddaeth o Gymru) yw casglu enwau i'w cyflwyno i'r pwerau fry i ddweud wrthynt yn union beth yw barn y genedl am niwcs.*

*Ychwanegwch at hynny achlysuron siarad yn yr ysgol (i'r gad (yn heddychlon!) yn erbyn Heddwch drwy NATO), ysgolion undydd cyfleus i chi, ac ymgyrch posteri yn yr hydref.*

*Un penwythnos i'w nodi yw Rhagfyr 14-15 pan fyddwn yn ôl yn Lerpwl am ail gynhadledd y flwyddyn. Byddai cael carfan gref o Gymru yno yn wych – cysylltwch â ni.*

*Yn olaf, oherwydd dryswch ar y cyfrifiadur, rŷn ni wedi colli rhai aelodau ieuenctid. Felly, os ydych wedi talu ond heb fod yn derbyn unrhyw wybodaeth ieuenctid, dewch i gysylltiad â ni yn y cyfeiriadau isod. Os nad ydych wedi talu, beth am ymuno heddiw?*

*Cysylltwyr: Joe Castle, 25 Cilgant Aberystwyth, Y Barri CF6 8EH, 0446-738020; Teresa Mock, 30 Cilgant Hywel, Y Barri CF6.*

# Polisi amddiffyn call i Ewrop

**Cadeirydd newydd CND Cymru yw David Morris, aelod o senedd Ewrop dros y Gorllewin a'r Canolbarth. Dyma ei adroddiad am bwnc llosg yn yr Ewrop newydd.**

Un peth sy'n codi beunydd yng ngwaith Aelod o'r Senedd Ewropeaidd yw pwysigrwydd iaith. Nid yn unig wrth gyfathrebu, ond yn y broses o feddwl gwleidyddol ei hun. Geiriau, mewn unrhyw iaith, yw meini adeiladu syniadau gwleidyddol.

Efallai nad yw'n syndod, felly, bod rhai o'r dadleuon sy'n codi yn y Senedd Ewropeaidd, a'r ddadl Ewropeaidd ehangach, yn ymddangos, yn rhannol o leiaf, fel mater o semanteg. Yn fynych, nid yw'r gwahaniaeth safbwynt ddim byd tebyg i'r hyn y byddai gwres y frwydr eiriol yn ei awgrymu.

Mae gwahanol draddodiadau gwleidyddol, cymdeithasol, ac economaidd wedi datblygu dealltwriaeth wahanol ac, efallai, yn bwysicach, teimlad gwahanol ynglŷn â geiriau y dylid gallu eu cyfieithu'n uniongyrchol. Mae hynny, mi gredaf, yn egluro 'r pryder presennol ynglŷn â'r gair "ffederaliaeth".

I rai, mae'n creu darlun meddyliol o uwch-wladwriaeth ganoledig, â phwerau wedi eu symud ymhellach byth oddi wrth y bobl gyffredin; i eraill golyga'r gwrthwyneb yn llwyr bron — democrateiddio biwrocratiaeth, rhannu cyfrifoldeb, a symud pwer i lefel fwy lleol.

Gair arall sy'n dueddol o gael ei ddehongli mewn amryw ffyrdd yw "Diogelwch". Yn y mudiad heddwch, wrth gwrs, yr ydym ond yn rhy gyfarwydd â'r dallineb hynod sydd ar unwaith yn trosi'r gair hwn i olygu 'amddiffyn milwrol'. Gwyddom hefyd mai'r hyn a olygir, yn rhy fynych, wrth amddiffyn yw'r pwer i ymosod, a fel y gwelsom yn ddiweddar, gall olygu gweithgarwch milwrol filoedd o filltiroedd i ffwrdd o'r DU.

Dylai diwedd y rhyfel oer a dileu Cytundeb Warsaw ganiatau i ni ail-hawlio'r gair "diogelwch" a phwysleisio ystyr pennaf y gair, sef "rhyddid oddi wrth berygl ac ofn".

Credaf bod diogelwch yn wir yn deillio o ddileu ofn perygl, ac mewn gwirionedd, ni ellir dileu'r ofn hwnnw drwy adeiladu muriau uwch a chryfach neu wrthgloddiau mwy. Mae ein harfogi ein hunain â mwy a mwy o arfau o fwy a mwy o bwer dinistriol yn cynyddu'r ofn hwnnw yn ddirfawr.

Mae gennym gyfle yn awr i adeiladu Ewrop newydd, ddiogelach, fwy hyderus yn seiliedig ar barch, ymddiriedaeth a chydnabod buddiannau cyffredin — ac wedi ei llunio ar yr egwyddor mai'r unig wir ddiogelwch yw diogelwch cyffredin.

Mae'r ddadl ar holl gwestiwn diogelwch a pholisiau tramor ac amddiffyn posibl ar gyfer y Gymuned Ewropeaidd a'r Ewrop ehangach wedi ehangu yn y misoedd diwethaf.

Mae syniadau positif ac adeiladol yn tarddu o wahanol ffynonellau yn y Dwyrain a'r Gorllewin. Ond, yn anffodus, ceir hefyd bobl sydd yn gaeth i ffyrdd a mudiadau'r gorffennol, ac sydd yn benderfynol o ffrwyno'r cynigion radical sydd yn dechrau eu hamlygu eu hunain.

Gobeithio y gallaf yn y dyfodol adrodd yn *Heddwch* ar y ddadl hanfodol bwysig hon. Tra na charwn ddadlau mai swyddogaeth CND Cymru yw ymgyrchu o blaid unrhyw ffurf neu strwythur neilltuol ar gyfer Ewrop yfory, credaf y bydd gennym rywbeth i'w gyfrannu i'r ddadl.

Ynghyd â mudiadau heddwch o bob gwlad yn y Gymuned ac y tu allan iddi, mae'n gyfrifoldeb arnom i sicrhau na chaiff y gair a'r cysyniad "diogelwch" byth mo'i diraddio eto.



*David Morris yn danfon cymorth meddygol i Nicaragua*
David Morris sends medical aid to Nicaragua

## Y GWIR AM NEWYN

*Mae digon o adnoddau yn y byd heddiw i sicrhau cyflenwad parhaol o fwyd ar gyfer pob oedolyn a phlentyn, ac eto mae 27 miliwn person mewn perygl oherwydd un o'r newynau gwaethaf i wynebu Affrica y ganrif hon.*

*Ond nid yw newyn ar y raddfa hon yn rhywbeth sy'n ymddangos yn sydyn o'r awyr las. Gellir ei ragweld ac, yn yr achos hwn, dyna ddigwyddodd! Cyn belled yn ôl â mis Hydref 1990, roedd Achub y Plant ac asiantaethau eraill yn rhybuddio bod argyfwng heb ei ail yn datblygu.*

Ond dim ond cyfran fechan o'r cymorth bwyd yr oedd ei angen a ymrwymwyd, a chyrhaeddodd hyd yn oed llai na hynny. Yn lle hynny, roedd llygaid y byd gorllewinol a'i gyfryngau wedi eu hoelio ar y Gwlff.

Mae cymorth rhyngwladol wedi bod yn fater o rhy ychydig yn rhy hwyr. Bellach, ni ellir atal y llithriad i newyn oni cheir gweithredu rhyngwladol cydgysylltiedig i sicrhau bod y bwyd yn cyrraedd pobl.

Yn llawn mor bwysig, mae angen creu sicrwydd cyflenwad bwyd tymor-hir ar gyfer gwledydd sy'n dueddol o ddioddef newyn drwy fuddsoddi mewn cynhyrchu amaethyddol a datblygiad economaidd.

Rhaid i'r gymuned ryngwladol helpu i sicrhau'r amodau a fydd yn sicrhau cyflenwad bwyd digonol yn y dyfodol: heddwch, sadrwydd, twf economaidd a dileu'r dyledion llethol. Yna, rhaid iddi fuddsoddi mewn rhaglenni datblygu effeithiol.

Oes, mae digon o adnoddau yn y byd i sicrhau mai sicrwydd bwyd, yn hytrach nag argyfwng bywd, fydd hanes Affrica yfory.

**David Richards**
**Achub y Plant**

Os carech wybod mwy am waith Achub y Plant ysgrifennwch at David Richards, SCF, 48 Ffordd Westbourne, Penarth, De Morgannwg, CF6 2HF, neu ffoniwch (0222) 704430.

## AMDDIFFYN CYMRU

*Mae aelodau Plaid Cymru wedi bod yn rhan o CND drwy gydol ei hanes. Yr ydym wedi chwarae rhan weithgar i ddatblygu'r mudiad heddwch yng Nghymru ac yr ydym yn parhau i wneud hynny.*

*Bu CND Cymru yn fwy nag ymgyrch yn erbyn arfau niwclear erioed. Mae'n gwrthwynebiad cenedl canolbwyntio, yn eu tro, ar Polaris, Cruise, Trident a systemau arfau eraill, ond bu iddo sail llawer ehangach erioed.*

*Rhaid i bolisi amddiffyn fod yn berthnasol ac yn briodol i anghenion Cymru. Rhaid i wariant ar amddiffyn fod yn berthnasol i'r hyn sydd angen ei amddiffyn. Mae polisiau milwrol Prydain wedi bod nid yn unig yn gostus dros ben, ond hefyd yn amherthnasol i Gymru.*

*Ni ellir neilltuo problemau ein cymunedau, boed ddiwydiannol neu wledig, a'r materion sydd yn effeithio ar ddyfodol Cymru – gan gynnwys dyfodol yr iaith – oddi wrth y ddadl ar beth yw ystyr amddiffyn a diogelwch gwirioneddol. Rhaid i ni wneud yn eglur y cysylltiadau rhwng gwario ar arfau a thlodi – boed yng Nghymru, Iraq neu Affrica. Rhaid i ni ddarbwyllo pobl nad yw rhyfel yn fodd llwyddiannus o ddatrys gwrthdaro rhyngwladol.*

*Mae Plaid Cymru wedi creu cysylltiadau â phobl mewn gwledydd Ewropeaidd eraill sydd yn gweithio tua'r un nod. Ni allwn ynysu'r metrion hyn. Dim ond un dewis sydd os ydym yn mynd i fedru adeiladu'r fath o gymdeithas yr ydym am ei gweld yng Nghymru, a'r dewis hwnnw yw ethol ein llywodraeth ein huunain i weithio yn unol â dymuniadau pobl Cymru, a bod y llais o blaid heddwch a chyfiawnder yn y byd.*

*Yna gallem gwtogi'r gyllideb amddiffyn a gwario'r arian ar bobl, nid ar arfau. Yna, gallem wireddu'r Gymru ddi-niwclear.*

***Jill Evans***

# Aberthu er mwyn elw?

Bu'n hysbys ers tro bod pobl leol sy'n bwyta pysgod o Lyn Trawsfynydd yn wynebu'r lefelau uchaf o ymbelydredd o unrhyw 'grŵp critigol' o gwmpas unrhyw sefydliad niwclear ym Mhrydain, ac eithrio Sellafield a Dounreay. Pan ddywedodd Mr Preston, Cyfarwyddwr Ymchwil Pysgodfeydd yn y Weinyddiaeth Amaeth wrth Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar yr Amgylchedd ym 1985 mai dim ond Sellafield oedd yn fwy o destun pryder i'r Weinyddiaeth Amaeth na Thrawsfynydd, yr oedd yn ymwybodol bod bwytawyr pysgod yn cael dôs bosibl o 0.21 mSv.

**Yn awr, mae'r amcangyfrifon swyddogol diweddaraf oddi wrth Arolygwyr Llygredd ei Mawrhydi yn dair gwaith y lefel honno. Mae'n amlwg y bydd bwyta'r pysgod hyn yn peri nifer gynyddol o gancrau.**

**Mae Greenpeace bellach wedi cyhoeddi dogfen fewnol gan y BCTC o 1988, o'r enw 'Arolwg o Ddosbarthiad Ymbelydredd yng Ngwaddodion Llyn Trawsfynydd'. Gwnaed yr arolwg ym 1986 ar sail grid, a dengys amrywiad dramatig mewn lefelau ymbelydredd o'r naill ran o'r llyn i'r llall. Mae gan chwarter mwyaf ymbelydrol cilomedr sgwâr, o'r enw bloc K, laid ag ynddo ymbelydredd o bron 14,000 Bq/kg. Mae gan flociau eraill yng nghornel gogledd-ddwyreiniol y llyn ddarlleniadau o 9,200, 8,300 a 6,500, i'w gymharu â lefel o 4,300 Bq/kg ar gyfartaledd am y llyn yn ei grynswth.**

**Amcangyfrifai'r BCTC fod cynnwys ymbelydrol gwaddodion llaid llyn Trawsfynydd yn gyfanswm o 730,000,000,000 Bq., dros arwynebedd o 4.8 cilomedr sgwâr. (Un dirywiad ymbelydrol yr eiliad yw Bequerel.)**

**Mae Llyn Trawsfynydd bellach yn gymysgedd cyfoethog o botes ymbelydrol, wedi ei ffurfio o Caesium 137 (73 y cant) a Plutonium 241 (15 y cant) yn bennaf, ond yn cynnwys defnyddiau megis Cobalt 60, y mae ei bresenoldeb yn awgrymu adweithydd sydd yn cyrydu.**

**Mae pob metr sgwâr o waddodion yn cynnwys, ar gyfartaledd, 152,000 Bq o ymbelydredd. Mae hyn yn cymharu ag efallai 1 i 2 Bq o ymbelydredd cefndir naturiol yn y pridd, a 1,000 i 5,000 Bq y fetr sgwâr o Chernobyl yn y rhan hon o Ogledd Cymru.**

**Dyma'r enghraifft waethaf o lygru lle cyhoeddus gan orsaf niwclear sifil ym Mhrydain. Hyd yn oed heb bresenoldeb y Plutonium, mae llawer o'r gwaddodion yn uwch na'r lefel sy'n diffinio gwastraff niwclaer lefel isel o dan Ddeddf Defnyddiau Ymbelydrol 1960. Dylid ymdrin â'r gwaddodion hyn fel gwastraff niwclear. Pe bai i Lyn Trawsfynydd sychu byth, effeithid ar iechyd cyhoeddus ac amaeth yng Ngwynedd.**

**Nid yw'r ddau adweithydd Trawsfynydd wedi gweithredu er mis Chwefror. Mae amheuon newydd ynglŷn ag integredd eu llestri pwysedd wedi arwain at gynnig y dylid gostwng eu pwysedd gweithredu.**

**Er gwaethaf problemau gweithredu a llygredd gwarthus, bwriada Trydan Niwclear ymestyn bywyd Trawsfynydd i 1999, ac y maent yn parhau i wrthod cyhoeddu eu dadansoddiadau diogelwch.**

**Drwy ymestyn bywydau y gorsafoedd Magnox hyn, a gohirio eu dadgomisiynu am 130 o flynyddoedd wedi iddynt gau, mae Trydan Niwclaer yn ceisio celu gwir gost trydan o'u hadweithyddion. Drwy weithredu'r gorsafoedd hyn y tu hwnt i'r ugain mlynedd y bwriadwyd iddynt bara, mae Trydan Niwclaer yn aberthu diogelwch y cyhoedd er mwyn elw.**

**Hugh Richards**

# Cnoc Dros /Heddwch

**"CANEUON HEDDWCH" (Y Lolfa, £1.95)**

Dim ond ddoe ddiwethaf own i'n cerdded y stryd yng Nghaerdydd pan glywais sŵn cerddorfa yn nesau. O aros, gwelwn lu o filwyr yn gorymdeithio ac, yn waeth na hynny, dau danc yn meddiannu'r stryd.

Meddwl own i rai munudau cyn hynny 'mod i'n dal heb wneud adolygiad ar Caneuon Heddwch. A dyma weld y cyfiawnhad dros ei gyhoeddi; ydy, mae'r peiriant milwrol yn dal i fynd yn ei flaen, yn ddi-dolc. Pa arfogaeth sydd ar gael i weithio yn ei erbyn?

Yn y llyfr hwn y mae'r ateb. Ceir yma leisiau sydd wedi mynnu cyhoeddi, dathlu: canu am dristwch rhyfel ac am y cariad sydd yn bosib fel dull amgen. Cariad sydd wedi ei sylfaenu ar degwch a chydraddoldeb at bobloedd a chenhedloedd.

Mae'r ffefrynnau i gyd yma. O Efengyl Tangnefedd Eifion Wyn i Tywysog Tangnefedd Dafydd Iwan. A da yw gweld caneuon poblogaidd sawl cyfnod wedi eu cyfosod, ac ambell gerdd fel Y Tangnefeddwyr Waldo yn eu mysg. Ac os na chafodd ei werthfawrogi mewn blodeugerdd arall, da oedd gweld y gwnaed yn fawr o gyfraniad T.E. Nicholas a'i sonedau.

Diolch felly i ganwyr ein cyfnod, pobl fel Dafydd Iwan, Tecwyn Ifan, Huw Chiswell, a Mair Tomos Ifans. Gallaf dystio i ddyfal-barhad yr olaf a chlywed am ei chyfraniad yn Rhyfel y Culfor.

Ond ble mae beirdd ein cyfnod? Diolch i Myrddin ap Dafydd sydd hefyd yma yn sgîl Plethyn, Ac mae cân fel Yr Hawl i fyw mewn Hedd Victor Jara (Dafydd Iwan) yno hefyd i'n hatgoffa am y brwydrau sydd mewn gwirionedd yn dal i gael eu hymladd ar draws y byd.

Ond prif werth y gyfrol yw dangos bod y nwyd o ganu a breuddwydio am fyd gwell yn dal i gyfri a bod pob ymdrech i leisio'n groyw neges heddwch yn gnoc yn erbyn militariaeth. Pan gollwn yr awydd i ganu, greda'i y collwn ein hurddas a'n ffydd yn y dull di-drais.

Dylai pawb brynu'r gyfrol hon, cans dyma lyfr 'emynau' ein cyfnod, a'n cyfle i gyd-ddyheu a chydfreuddwydio twry gan mewn cytgord. Dyma gwlwm a all herio grymoedd mileinig ein hoes a rhoi i ni nid yn unig nerth, ond llawenydd yn ein canu, Fel y gallwn ganu, yn ôl un noson lawen yn Eisteddfod yr Urdd eleni, nid *tancnefedd on tangnefedd*

**Menna Elfyn**

# EIN GOBAITH GORAU

Beth y cenhedloedd unedig?

"Cymdeithas", atebais. Ac fel arfer, rhaid oedd ychwanegu "Mae hynny'n wahanol i'r mudiad, y gŵyr pawb amdano. Dim ond llywodraethau all berthyn i Fudiad y Cenhedloedd Unedig, ond gellwch chi ac unrhywun arall ymuno â'r Gymdeithas."

"Wn i", meddai, "y CU yw'r corff rhyngwladol honedig yna yn Efrog Newydd sydd wedi ei reoli bron yn llwyr gan yr Americaniaid."

"Wel ie a nage! Oherwydd ei bod yn gallu talu cyfran helaeth, mae gan UDA ddylanwad mawr ar holl weithgareddau'r CU, ac efallai y dylid gwrando arni. Ond dyna le pobl gyffredin – darbwyllo eu llywodraethau eu hunain bod gan leiafrifoedd gwan hawliau hefyd.

"Rydym ni'n credu y gallwn, drwy ddod ynghyd mewn cymdeithas wirfoddol sydd wedi bodoli er sefydlu'r CU ym 1945, fod â mwy o lais, a hwnnw'n un amhleidiol. Mae'r holl brif bleidiau yn is-lywyddion, ac mae grŵp seneddol CCU yn bod hefyd, i hyrwyddo'r dadleuon."

Petrusodd yn ystyriol. "Ond dyw'r CU ddim wedi atal rhyfeloedd a thlodi a newyn." Gallwn ei weld yn meddwl, "Dyna ddiwedd y sgwrs fach yna."

"Rydych chi'n iawn, wrth gwrs. Maen nhw'n dweud bod arfau niwclear wedi atal rhyfel, ac eto mae mwy nag ugain miliwn o bobl wedi marw mewn rhyfeloedd 'bychain' er 1945. Fe welsom yn ddiweddar bod pobl yn marw 'run fath, a'r amgylchedd yn cael ei niweidio bron cymaint, drwy arfau confensiynol â thrwy arfau niwclear. Mewn gwledydd tlawd, mae ansicrwydd yn arwain at wario mwy ar arfau a llai ar iechyd ac addysg. Ydy, mae'n anodd gweld weithiau beth mae'r CU wedi ei gyflawni."

"Dyna fy mhwynt i", meddai yn fuddugoliaethus. "Byddai'n well arnom hebddo, a rhoi'r arian i Oxfam."

Wnes i ddim llawer o argraff arno pan ddywedais mai'r CU oedd y gobaith gorau am ddyfodol i'r byd. Teimlai llawer o aelodau CCU bod Rhyfel y Gwlff wedi dangos y gallai barn fyd-eang uno yn erbyn gormes, hyd yn oed os oedd rhai'n siomedig na roddwyd mwy o amser i sancsiynau weithio.

Ychwanegais bod y byd, am ddeugain mlynedd, wedi byw tan gysgod perygl gwrthdaro rhwng dwy ideoleg fawr UDA a'r Undeb Sofietaidd. Yn awr, roedd y ddau bwer yn cydnabod bod y Rhyfel Oer ar ben, ac yn argymell gwneud mwy o ddefnydd o'r CU, gan gytuno yn y Cyngor Diogelwch yn ystod Rhyfel y Gwlff. Mae'r ddwy wlad yn ddigon cryf i wneud heb y CU, ond maent ill dwy yn dewis aros yn y mudiad.

Roedd fy nghyfaill yn cytuno fymryn, gan gydnabod bod gennyf bwynt neu ddau. Cytunai hyd yn oed y gwrandewir ar Brydain, pwer bach bellach, â pharch yn nadleuon y CU. Mae'n lwyfan pwysig i hyd yn oed y gwledydd tlotaf oll, ac mae bellach yn cynrychioli 160 o genhedloedd.

Cytunai.

Roedd yr egwyl coffi bron â dod i ben, felly dyma fi yn rhoi.

Roedd yn dechrau edrych braidd yn euog. "Dwi wedi bod eisiau gwybod am y Deml Heddwch erioed" meddai. Rhoddais iddo raglen gweithgareddau ein cangen wrth iddo orffen ei goffi. Gobeithio y gofynith am ffurflen aelodaeth. Mae arnom angen mwy o'i debyg.

Y tro nesaf y cwrddwn ni, mi ddyweda'i wrtho ei fod eisoes yn aelod mewn ffordd. Mae'n perthyn i un o'n haelodau corfforaethol – CND. Ac mae pawb yn adnabod CND!

**Robert Davies**

• Pencadlys CCU yng Nghymru yw'r Deml Heddwch a Iechyd, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3AP. (0222 228549). Robert Davies yw cadeirydd cangen Caerdydd.

# CYFLAFAN

**Er cyfeirio ato fel rhyfel glân, ymladdwyd Rhyfel y Gwlff â bomiau brwnt dros ben, fel y mae Paul Flynn, AS Gorllewin Casnewydd wedi darganfod.**

Nid yw'r hysbys i lawr mai dim ond 7.4 y cant o'r bomiau a ollyngwyd oedd yn rhai manwl-gywir. Roedd llawr o'r 92 y cant arall yn arfau lladd torfol nas defnyddiwyd ar y fath raddfa erioed o'r blaen.

Ni ddylid cyfrif y bomiau clwster, y 'daisy cutters' a ffrwydron tanwydd-awyr yn arfau confensiynol fel y deallwn ni'r term. Arfau cyflafan ydynt sydd yn dinistrio pob creadur byw yn eu llwybr.

Ar Fehefin 17 codais y mater unwaith eto mewn cwestiwn llafar i'r Twrnai Cyffredinol. 'Sawl cwestiwn ydych chi wedi eu derbyn ar gyfreithlondeb yr arfau a ddefnyddiwyd gan luoedd y glymblaid yng ngwrthdaro'r Gwlff?' 'Dau', atebodd, 'un gennych chi; un gan Tam Dalyell.'

Dechrau addawol, ond wyneba dyfal-barhad seneddol ymgais fwriadol i wrthod cydnabod canlyniadau holocostaidd Rhyfel y Gwlff. Yr amcangyfrif diweddaraf yw y lladdwyd rhwng 100,000 a 200,000 o Iraqiaid, ac anafwyd rhwng 300,000 a 700,000. Kurdiaid neu Shiaid a orfodwyd i wasanaethu yn y fyddin oedd y rhan fwyaf o'r rhain.

Y bomiau a ddefnyddiwyd amlaf oedd yr unedau bomiau clwster (UBC). Maent yn cynnwys cannoedd, weithiau filoedd o unedau bom byw (UBB) a luniwyd i ddiffeithio arwynebeddau eang. Mae'r UBC 75 yn effeithio ar arwynebedd maint 157 o feysydd pêl-droed.

Gall awyren fomio B-52 gario deugain bom clwster o'r fath, yn cynnwys 8,080 o unedau bom, digon i garped-fomio 27,500 o feysydd pêl-droed. Gallai'r 28 awyren B52 a ollyngodd 470 tunnell o ffrwydron ar safleoedd Iraqi ar Ionawr 30 fod wedi dileu 1,600 milltir sgwâr, arwynebedd pumed rhan o faint Cymru.

Dim rhyfedd bod un cadfridog Americanaidd wedi dweud y byddant yn dal i ddod o hyd i gyrff ymhen deugain mlynedd.

Mae Ffrwydron Tanwydd Awyr (FfTA) yn dynwared ton ffrwydrad bom niwclear ar raddfa fechan, gan sugno'r ocsigen o'r awyrgylch. Gall y FfTA a ollyngir o'r awyr greu cylchfa pwysedd ffrwydrad rhyw 1,000 troedfedd o hyd, a chanwaith yn fwy na fyddai ei angen i brofi'n farwol i fodau dynol. Disgrifiwyd y defnydd a wnaed o FfTAon yn y Gwlff yn swyddogol fel 'arbrawf'.




*Cyflwyno deiseb sy'n galw am gau Mudiad Gwasanaethau Allforion Amddiffyn y Llywodraeth*

'Ffefryn y Marine Corps', yn ôl llefarydd Pentagon, oedd y 'Big Blue 82' neu'r 'Daisy Cutter'. Fe'i gollyngir ar barasiwt, a bydd yn ffrwydro ychydig uwchlaw'r ddaear gan bladuro cylch o ddinistr sydd yn difodi popeth dros arwynebedd eang.

Mae tystiolaeth glir bod llawer o'r arfau cyflafan y defnyddiwyd cymaint ohonynt yn y Gwlff wedi bod – ac yn dal i fod – ar werth ym marchnadoedd arfau'r byd. Yr unig ddadl sy'n tycio gyda'r llywodraeth bresennol yw'r posibilrwydd y gallai lluoedd Prydeinig fod yn wynebu'r arfau brawychus hyn mewn unrhyw wrthdaro yn y dyfodol.

Rwyf yn ymgyrchu o blaid cynnwys yr arfau hyn ym Mhrotocol Arfau Annynol 1981. Byddai hynny'n rhoi rhywfaint o reolaeth ryngwladol ar eu cynhyrchu, eu gwerthu a'u lleoli.

Mwy effeithiol byth fyddai cydnabod yn llawn fwtsieriaeth ddiwahân ofnadwy Rhyfel y Gwlff. Dichon y byddai'r atgasedd a deimlid at hynny yn gyfrwng atal gwrthdaro yn y dyfodol.

Dirmygodd y Gweinidog Pwrcasiadau Amddiffyn, Alan Clarke, un o'm cwestiynau gan ebychu, 'Carai rhai aelodau ein gweld yn ymladd rhyfeloedd gan ddefnyddio parseli bwyd a chyrn siarad.'

Am syniad gwych.

# Dyddiadur Heddwch

**AWST**

**6** Dydd Hiroshima. Gorymdaith ddistaw a chylchynu'r pafiliwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Yr Wyddgrug (hanner dydd).

Hwylio canhwyllau yn y marina, Abertawe (8 p.m.). Manylion pellach gan Mike Hayes (0792 367807).

**9** Dydd Nagasaki. Gweithgareddau lleol.

**24** Taith gerdded haf CND Abertawe. Dewch â phlant a phicnic. Cwrdd ym maes parcio Black Pill (2 p.m.). Manylion pellach gan Mike Hayes (0792 367807).

**31** Picnic Epynt – blas ar ddwyrain Ewrop. Mwynhewch ddiwrnod allan yn mhenterf Chwaraeon Rhyfel darluniaidd y Fyddin ar Fynydd Epynt (rhwng Aberhonddu a Llanfair ym Muallt). Dewch â bwyd a diod. Ffoniwch Rod Stallard (05505) 260 am fanylion.

**31** Arddangosfa Offer y Llynges, Portsmouth. Gwrthdystiad a rali, cwrdd yn Sgwâr Guildhall (hanner dydd).

**MEDI**

**2** Arddangosfa Offer y Llynges, Portsmouth. Blocâd di-drais o'r seremoni agoriadol swyddogol. Pecyn cefndir a manylion am lety gan Dave Poulden (CND Prydeinig) 071 700 2393.

**12** Cyfarfod ar gyfer aelodau CND yng Ngogledd Cymru. Cyfle i drafod ymgyrchu, *Heddwch*, a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Corwen (7.30 p.m.) Manylion gan Bob Cole (0766) 831356.

**14** Cyfarfod CND Cymru ar gyfer aelodau yn Ne Cymru (11-4). Gweithdai ar: Y Difidend Heddwch; Tlodi, newyn, a'r ras arfau; Maniffesto'r Ddaear; Militareiddio Cymru. Lleoliad i'w drefnu. Cysyllter â Bob Cole (0766 831356) am fwy o wybodaeth.

**16** Grŵp golygyddol *Heddwch* yn cwrdd yn y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd (7 p.m.) i drafod cynnwys y rhifyn nesaf).

**17** Deng Mlynedd o Greenham. Fideo a siaradwyr o'r daith gerdded wreiddiol, Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Stryd Page, Abertawe (7.3- p.m.). Manylion pellach gan Mike Haynes (0792 367807).

**HYDREF**

**5** Y Fasnach Arfau a Thrawsnewid Arfau, ysgol undydd a drefnwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Ymchwil ac Addysg ar y Fasnach Arfau (TREAT), Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Friargate, Efrog (10 i 5). Manylion gan TREAT, 11 Goodwin Street, Llundain N4 3HQ (071 281 0297).

**26** Blocâd di-drais o faes awyr Upper Heyford.

**TACHWEDD**

**10** Diwrnod Coffa. Peidiwch ag anghofio eich pabi gwyn.

**22** Cynhadledd CND Prydain (tan Tach 24). Gan gynnwys trafodaethau ar y fasnach arfau; Trident; 'heddwch' wedi Rhyfel y Gwlff; fersiwn Bush o'r dyfodol; y difidend heddwch; yr angen am drawsnewid yn y diwydiant cynhyrchu milwrol Prydeinig. Mwy a fanylion o 071 700 2393.

**23** Ffair Ryngwladol, Y Deml Heddwch, Caerdydd. Trefnwyd gan Gymdeithas y Cenhedloedd Unedig, Cangen Caerdydd. Manylion gan Jill Hutt, 6 Greenland Crescent; Y Tyllgoed, Caerdydd CF5 3HE.

**30** Cyfarfod Cyngor CND Cymru yng ngwesty Brynafon, Rhaeadr, Powys. Croeso i bob aelod a grŵp. Manylion gan Bob Cole (0766 831356).

## CND Cymru – yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru


Os carech fwy o wybodaeth am CND yng Nghymru a gweithgareddau yn eich ardal, cysyllter â Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanysgrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW (0766 831356) neu'r Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd (0222 489260).

Dylid danfon cyfraniadau i *Heddwch* at James Stewart, 31 Romilly Crescent, Caerdydd CF1 9NP.

I hysbysebu yn *Heddwch*, cysyllter â Mary Jones, 9 Idris Terrace, Plasmarl, Abertawe (0792 774687).

**PEIDIWCH ag oedi nes bod awyren fomio yn syrthio ar eich tref neu'ch pentref chi ...**

**Ymgyrchwch yn erbyn** **Hedfan Isel** **Nawr**



Copiau o daflen newydd CND Cymru, a chardiau post ar gael gan:
CND Cymru, Brynelltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW
Taflenni: £1.50 y 100 Cardiau post: £1 am 20

Danfonwch ataf .......... taflen
Amgaeaf siec/archeb bost (yn daladwy i CND CYMRU) am £ ..........
Arwyddwyd ......................... Dyddiad ..............
ENW ..........................................................
CYFEIRIAD ..................................................
..................................................................

**HYSBYSEBU HEDDWCH**

Dyma'r cyfle hyrwyddo delfrydol i chi.

Cyhoeddir 5,000 o gopiau dwyieithog o Heddwch yn chwarterol, adanfonir 3,500 o gopiau drwy'r post at ein haelodau ledled Cymru.

Helpwch eich gwerthiant Nadolig, cynyddwch eich aelodaeth a'ch cefnogaeth, drwy fanteisio ar ein telerau hysbysebu cystadleuol.

**COST ARDDANGOS**

Tudalen llawn **£200**
hanner tudalen **£120**
chwarter tudalen **£75**
wythfed tudalen **£50**

**COST FESUL LLINELL**

**8c** y gair

**GWASANAETH POST UNIONGYRCHOL**

£35 y 1000 o fewnosodiadau [ar gael led-led y wlad os dymunir]

**CYNIGIWN I CHI**

**20%** o ostyngiad ar hysbysebu arddangos yn rhifyn y gaeaf yn unig

**15%** o ostyngiad ar gyfres o hysbysebion [lleiafswm 4 rhifyn]

Gostyngiad am ddarparu gwaith celf parod i'r camera

Gwasanaeth cyfieithu rhad ac am ddim

Archebwch le YN AWR drwy ein ffonio ar 0792 774687

DYDDIAD OLAF AR GYFER HYSBYSEBU: Rhifyn y gaeaf MEDI 30ain

Danfonwch eich hysbyseb a'ch siec [yn daladwy i CND CYMRU] at:

*Hysbysebu Heddwch*
*9 Idris Terrace,*
*ABERTAWE SA6 8LT.*

# Atal y Fasnach Arfau Farwol

**Hyd oni ddarganfu'r byd Saddam Hussein, câi'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau hi'n anodd ennyn diddordeb yn ei gwaith. Bellach mae'r Ymgyrch yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r holl ymholiadau o du'r wasg yn ogystal â'r sacheidiau o bost yn gofyn am wybodaeth a defnyddiau ymgyrchu.**



Yn ogystal â'r diddordeb hwn gan y cyhoedd, mae ffigurau amlwg, yn amrywio o'r Pab i Mick Jagger, yn llefaru'n gyhoeddus yn erbyn y fasnach mewn arfau. Mae hyn oll yn cynorthwyo i greu awyrgylch lle gorfodir gwleidyddion ac arweinwyr diwydiant fwyfwy i geisio cyfiawnhau eu hymwneud â'r fasnach arfau.

Cafwyd llu o gynigion ar gyfer rheolaethau, gan gynnwys rhai gan John Major a George Bush ymhlith eraill.

Hyd yn oed os oes rhyw dinc sinigaidd ynglŷn â gwneud cynigion felly tra'n dal i ganiatau allforio arfau o'ch gwlad ar yr un pryd, serch hynny, mae'r ffaith bod y fath gynigion yn cael eu gwneud o gwbl yn bositif. Mae'n gyfle y mae'n rhaid i ymgyrchwyr fantesio arno. Dyma'r cyfle gorau ers blynyddoedd i symud ymlaen i gyfyngu ar y farchnad arfau ac, yn y pen draw, gobeithio, rhoi terfyn arni.

**Beth y gallwn ei wneud**

Os nad ydych chi neu'ch grŵp eisoes yn cefnogi'r Ymgyrch, dewch i gysylltiad â ni nawr. Mae llythyr newyddion deufisol YEFA yn waith darllen hanfodol i unrhywun sydd am wybod mwy am y pwnc ac ymuno â'r gwrthwynebiad i allforio arfau.

**Prif ymgyrchoedd YEFA ym 1991 yw:**

- Cau Mudiad Gwasanaethau Allforion Amddiffyn (MGAA) y Llywodraeth;
- Pwyso ar gynghorau lleol i ddefnyddio eu dylanwad fel prif gyfranddalwyr i bwyso ar gwmniau milwrol i lunio cynlluniau ernewid i gynhyrchu sifil.
- Pwyso am gofrestr Cenhedloedd Unedig o gynhyrchu a throsglwyddo arfau. Mae grŵp astudiaeth CU wedi bod yn gweithio ar hyn er 1988 a bydd yn adrodd wrth y Cynulliad Cyffredinol yr hydref hwn.

Ffocws arall yw Arddangosfa Offer y Llynges a gynhelir o'r 1–6 o Fedi yn Portsmouth. Rhedir y ffair hon gan MGAA, a dyma'r arddangosfa arfau fwyaf a phwysicaf, o bell ffordd, a gynhelir yn y DU eleni. Dyddiadur y brotest yw:

**Sadwrn 31 Awst** – Gwrthdystiad. Cwrdd am hanner dydd yn Sgwâr Guildhall, Portsmouth am rali a gorymdaith i Whale Island, safle'r sioe.

**Sul 1 Medi** – 3.00 p.m. Gwasanaeth yn eglwys St. Saviour, Stamshaw, Portsmouth, gyda gorymdaith wedyn (heb ei chyfyngu i Gristnogion yn unig) â balŵns a baneri i Whale Island am bicnic.

**Llun 2 Medi** – 9.00 a.m. Blocâd di-drais o'r seremoni agoriadol swyddogol. Pecyn cefndir a manylion am lety gan Jimmy Johns ar 0245 420178; Dave Poulden ar 071 700 2393; Di McDonald ar 0703 554434.

**Llun 2 Medi** – hanner dydd tan 2 pm. Gwylnos y tu allan i MGAA, Sgwâr Soho, Llundain, W1.

**Llun 2 i Gwener 6ed Medi** – 7.30 a.m. i 9.30 a.m. – dosbarthu taflenni i arddangoswyr.

Gwybodaeth bellach am yr holl ddigwyddiadau hyn, ac eithrio'r blocâd, gan Portsmouth Against the Arms Fair ar 0705 811603 neu oddi wrth YEFA, 11 Goodwin Street, Llundain N4 3HQ (071 281 0297).

**Ann Feltham**


# CND Cymru

**Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

AR FLAEN Y GAD YN YR YMGYRCH DROS GYMRU AN-FILWROL A BYD HEDDYCHLON

Mae gennym ddewis cyflawn o nwyddau CND

**CRYSAU-T RHODDION**
**CERDDI LLYFRAU BATHODYNNAU STICERI**

*Catalogau/Archebion ar gael gan*
**Masnach CND Cymru, Cae'rychain, Niwbwrch, Ynys Môn LL61 6SG**

*Am ddeunydd ymgyrchu neu wybodaeth gyffredinol, ysgrifennwch at:*
**Bob Cole (Ysgrifennydd Cyffredinol)**
**Brynelltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW**

**Carwn ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw.......................................................................

Cyfeiriad ................................................................

..............................................................................

Amgaeaf siec/archeb bost am £......... *yn daladwy i CND Cymru*
Pâr £15 oedolyn £10 digyflog, pensiynwyr, myfyrwyr £3

Dychweler i CND Cymru, Brynelltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TW.

# Greetings from

The Welsh Labour Members of the European Parliament

to

## the CND Cymru magazine
## "Heddwch"

# Croesawn y llais newydd yma dros heddwch

# We welcome this new voice for Peace

Wayne David MEP
South Wales
119 Newport Road
Cardiff
Tel:(0222)490215

David Morris MEP
Mid and West Wales
39 St. James Crescent
Swansea
Tel:(0792)643542

Llew Smith MEP
South East Wales
23 Beaufort Street
Brynmawr, Gwent
Tel:(0495)313345

Joe Wilson MEP
North Wales
14 Post Office Lane
Denbigh, Clwyd
Tel:(0745)814434

If you would like to know more about the work of the European Parliamentary Labour Party, please contact your local MEP at one of the above offices.

Socialist Group Grwp Sosialaidd



Chris Gregory

Greenham 1982